

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 26.

Cymorth Cristnogol

Mai 14-20

Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i wlyddo.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 16: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ebrill 11: Bore Coffi am 10.30 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Dydd Gwener y Groglith: Gwasanaeth Cymun y Groglith am 10.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Sul y Pasg, Ebrill 16: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni.

REHOBOTH

Sul y Pasg, Ebrill 16: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 9 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Ebrill 23

5.00 p.m. - Mr Charles Jones, Llanrug

BETHLEHEM

Sul y Pasg, Ebrill 16: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri, Caernarfon.

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 10: Y Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Dydd Mercher, Ebrill 12: Taith Dwylo Prysus i Ben Llŷn.

Sul y Pasg, Ebrill 16: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dewi T Morris, Porthmadog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ebrill 10: Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.



Sul nesaf

Sul y Pasg

Dathlu'r Atgyfodiad

'Y mae wedi ei gyfodi, nid yw yma; dyma'r man lle gosodasant ef' (Marc 16:6).

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 9 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Parchg Euros Jones

Ebrill 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 724: Sul y Blodau, 09 Ebrill, 2017

Wyro

Mae'n anhygoel mor barod yw rhai i sôn am ryfel. Pwy yn ei iawn bwyll allasai ddychmygu y byddai gwleidydd profiadol yn awgrymu y gallai Prydain ystyried am un eiliad fynd i ryfel yn erbyn Sbaen ar gownt Gibraltar? Sbaen? Mewn difrif! Y Sbaen yr aeth oddeutu 15 miliwn o bobl Prydain ar eu gwyliau iddi'r llynedd? Y Sbaen y mae dros 380,000 o Brydeinwyr yn byw ynddi ar hyn o bryd? Y Sbaen y mae miliynau o Brydeinwyr yn gwyllo ei thimau pêl droed ar y teledu bob wythnos? Rhyfel yn erbyn Sbaen? Y fath ffwlbrî; y fath ynfydrwydd oedd i Michael Howard hyd yn oed crybwyll y posibilrwydd, pa mor annhebygol bynnag y peth. Trasiedi'r peth oedd bod mwy nag un papur newydd wedi rhuthro i ddatgan y byddai Prydain yn sicr o ennill unrhyw ryfel yn erbyn yr hen Sbaenwyr digywilydd. Bron nad yw'r papurau hyn yn ysu am ryfel.

Heb os, eisiau ymgyrch filwrol yr oedd llawer o'r bobl a ddisgwyliai am y Meseia yn nyddiau'r Iesu. Disgwyl yr un a fyddai'n eu harwain i ryddid oddi wrth ormes Rhufain oedd llawer o'r bobl a floeddi 'Hosanna' ar Sul y Blodau. Ond Meseia gwahanol iawn i'w disgwyliaidau nhw amdano oedd Iesu. Dod yn dlawd a wnaeth hwnnw; dod yn ostyngedig; dod nid i ymladd ond i ddiodeff, nid i glwyfo ond i gael ei glwyfo, nid i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu.

Eto, rhaid gwyllo rhag pardduo pawb gan fod, heb os, ymhlith tyrfa Sul y Blodau rai a oedd yn croesawu Iesu am y rhesymau cywir. Mae'r ffaith iddo amddiffyn y plant a'r bobl a ganai ei glodydd yn y deml rhag beirniadaeth y Phariseaid yn awgrymu hynny. Roedd yna rai a ddeallodd mai'r Meseia y bu'r proffwydi'n sôn amdano oedd yr Iesu hwn. Ond roedd y mwyafrif wedi camdeall a heb sylweddoli nad trwy rym milwrol y byddai Meseia Duw yn achub ei bobl, ond trwy gael ei wrthod, a thrwy ddiodeff a marw drostynt. Nid rhag gormes Rhufain y byddai'n eu hachub ond rhag gormes pechod a marwolaeth. Ond welai'r mwyafrif mo hynny. Roeddent wedi camdeall yr hyn yr oedd Iesu am ei wneud. Ac fe wylodd Iesu wrth sylweddoli hynny; ac meddai, 'Pe bait tithau, y dydd hwn, wedi adnabod ffordd tangnefedd – ond na, fe'i cuddiwyd rhag dy lygaid' (Luc 19:42).

Yn union wedi sŵn a chyffro'r croeso roedd Iesu yn ei dagrau wrth weld fod Jerwsalem a'i phobl mor amharod i greu'r gwir amdano. Roedd yn wlo wrth sylweddoli nad oedd y bobl hyn yn deall ei fod ef wedi dod i sicrhau ffordd tangnefedd rhyngddyn nhw a Duw a rhyngddyn nhw a phobl eraill. Ac ar Sul y Blodau, wlo a wnawn ninnau o weld mor ddieithr yw ffordd tangnefedd o hyd. Ac wlo a wnawn o weld mor barod yw ambell un i sôn am ryfel pan nad oes unrhyw alw amdano.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Y mae fy nghalon yn gadarn,
O Dduw, y mae fy nghalon yn
gadarn; fe ganaf a rhoi mawl. **BEIBL BYW**
Deffro, fy enaid, deffro di, nabl a thelyn.
Fe ddeffroaf ar doriad gwawr. Rhof
ddiolch i ti, O Arglwydd, ymysg y
bobloedd, a chanmolaf di ymysg y
cenhedloedd, oherwydd y mae dy gariad
yn ymestyn hyd y nefoedd, a'th
wirionedd hyd y cymylau.
Ymddyrchafa'n uwch na'r nefoedd, O
Dduw, a bydded dy ogoniant dros yr holl
ddaeuar' (Salm 57:7-11).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn
oedfa Fedydd, a bydd Llifton a Bethan
Jones yn cyflwyno eu mab bach Noa i
ofal Duw trwy'r sacrament. Nid oes
Ysgol Sul heddiw. Bydd oedfa MOLI
am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg Cath Williams,
Caernarfon.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Canon Idris Thomas,
Deiniolen.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cymun y Groglith

Cynhelir Oedfa Gymun yn Capel Coch
am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener y
Groglith, Ebrill 14 dan arweiniad y
Gweinidog.

Mae croeso cynnes i bawb ohonoch, o
unrhyw un o eglwysi'r Ofalaeth, i'r oedfa
hon.

Cyfarfod Eglwysig i aelodau Ebeneser

Cynhaliwyd Pwyllgor Capel Ebeneser
nos Lun diwethaf, Ebrill 3. Roedd holl
aelodau'r Pwyllgor yno, a diolch i bawb
am eich presenoldeb.

Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Eglwysig
arbennig i holl aelodau Ebeneser am 7.00
o'r gloch nos Fawrth, Mai.

Bydd llythyr yn cael ei anfon yr wythnos
hon at bob aelod i'w gwahodd i'r cyfarfod
hwn, ac apeliwn ar bawb i ddod iddo
os medrant.

Y Ffordd

Cynhaliwyd y diweddaraf yn y gyfres o
gyfarfodydd 'Y Ffordd' yn festri Carmel
nos Fercher diwethaf, ac unwaith eto
roedd yn braf gweld cymaint wedi dod
yno. Gobeithio bod pawb wedi cael budd
o'r drafodaeth. Bydd y cyfarfod nesaf
nos Fercher, Mai 10.

Anrhydedd

Cyhoeddwyd ddoe mai'r Athro Deri
Tomos, Llanllechid a fydd yn derbyn y
Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg yn yr
Eisteddfod Genedlaethol eleni. Dyma un
o brif anrhydeddau'r Eisteddfod a roddir
am gyfraniad arbennig yn y maes hwn.
Llongyfarchiadau mawr iddo ar ran pawb
yng Nghapel Carmel a'r Ofalaeth.

Casgliad y Genhadaeth

Mae Capel Coch yn trefnu casgliad
blynyddol Cronfa Genhadol Chwiorydd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru y mis hwn.
Gobeithiwn gael y cyfan erbyn y Sul
nesaf, Ebrill 16.

Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng
Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal
yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd
Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd
Llun y Pasg.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y
Parchg John Treharne, Llwynhendy.
Bydd gwahanol seminarau yn ystod y
prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob
gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu
harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Trip Dwylo Pysur

Bydd criw Dwylo Pysur, Capel Carmel
yn ymweld â Chlynnog, Pwllheli ac
Aberdaron yr wythnos hon, ddydd
Mercher, Ebrill 12. Gobeithio'n fawr y
bydd pawb yn mwynhau'r diwrnod.
Diolch i Mrs Helen Williams am drefnu'r
cyfan.

Cynllun Efe

Fore yfory, rwy'n mynd i gynhadledd
Gristnogol *Word Alive* yng ngwersyll
Pontins ym Mhrestatyn i sôn am waith
Cynllun Efe. Cawsom addewid o arian
o gasgliadau'r wythnos. Beth bynnag a
gawn, rwy'n gobeithio y bydd rhai o'r
bobl a fydd yno, o glywed am y gwaith,
yn gweddio trosom dros yr wythnosau a'r
misoedd nesaf. Byddai'n dda gwybod
fod yna bobl yn cofio am y gwaith hwn
yn eu gweddiau'n gyson.

Dwi ddim yn siwr beth i'w ddisgwyl. Yr
unig beth a wn ydi y bydd yna gannoedd
o bobl yn y gynhadledd a gychwynnodd
ddoe ac a ddaw i ben ddydd Iau. Bydd
modd gwrando ar gyfarfodydd gyda'r
nos Word Alive ar wefan y gynhadledd –
wordaliveevent.org/event

LLANW

Cricieth

O nos Lun, Ebrill 17 hyd nos Iau, Ebrill 20

Cyfarfodydd y bore am 10.00 o'r gloch

Cyfarfodydd yr hwyr am 7.00 o'r gloch